Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Eiddo
Property

I'W GOSOD

Unedau 4 a 5
Stad Ddiwydiannol Waterston,
Aberdaugleddau
SA73 1DP



Eiddo diwydiannol unllawr yw Unedau 4 a 5 Stad Ddiwydiannol Waterston gyda drws cydgysylltiol yn mesur fel cyfanswm tua 143 metr sgwâr (1540 troedfedd sgwâr)

£7400 y flwyddyn

Wedi'u lleoli yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac mewn lle da i wasanaethu gogledd a de'r Sir dros Bont Cleddau gerllaw

Lleoliad
Yn sefyll o fewn cyrraedd i'r A477 a'r A4076, mae Stad Ddiwydiannol Waterston mewn man hwylus ar gyfer mynediad at brif dref Hwlffordd a threfi porthladd Aberdaugleddau a Doc Penfro.

Disgrifiad
Eiddo diwydiannol unllawr yw Unedau 4 a 5 yn mesur tua 143 metr sgwâr (1540 troedfedd sgwâr). Mae gan bob uned fynedfa gerbydau (trwy ddrws codi) ac mae cyfleusterau toiled yn Uned 5.

Rhent
£7,400 y flwyddyn heb gynnwys TAW a Threthi Busnes (gwelwch Trethi taladwy isod).

TAW
Nid yw'n cael ei chodi ar hyn o bryd er bod hawl i wneud hynny rywbryd yn y dyfodol yn cael ei chadw.

Allanol
Man parcio o flaen yr eiddo.

Gwasanaethau
Dŵr a thrydan o'r prif gyflenwad. (Draenio i garthbwll y caiff tâl gwagio a chynnal ei godi amdano.)

Costau Cyfreithiol
Bydd y tenant yn gwneud cyfraniad rhwng £250.00 a £550.00 tuag at gostau cyfreithiol y Cyngor gan ddibynnu ar nifer y Tenantiaid sydd i'w henwi ar Gytundeb y Brydles.

Hyd y Brydles
I'w gytuno.

Trethi Taladwy
Ar hyn o bryd mae'n gymwys i gael rhyddhad 100% o dreth busnes bach. Darpar denantiaid i wneud eu hymholiadau eu hunain i sicrhau bod eu defnydd arfaethedig yn cymhwyso.

Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau
Trwy fod o fewn Ardal Fenter Aber Cleddau (www.enterprisezones.wales.gov.uk/brs), fe all cymorth i fusnesau newydd a rhai sy'n ehangu fod ar gael trwy gymhellion a chymorth arall. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 03000 6 03000 neu e-bostio businesssupport@wales.gsi.gov.uk

Gweld
Trwy drefniant blaenorol yn unig drwy Isadran Eiddo Cyngor Sir Penfro neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Claire Richards 01437 775021 neu claire.richards@pembrokeshire.gov.uk

EPC
B a C

Paratowyd y manylion hyn yn ofalus i roi trosolwg cyffredinol o nodweddion yr eiddo neu gonsesiwn ar gynnig. Nid yw'r Cyngor yn honni bod y manylion, nac unrhyw wybodaeth a roddwyd ar lafar neu'n ysgrifenedig gan ei gyflogeion, yn rhydd o gamgymeriadau neu ddiffyg, na chwaith bod yr eiddo mewn cyflwr adeileddol da neu'n rhydd o ddeunyddiau niweidiol, na bod unrhyw wasanaethau, taclau neu offer arall yn addas i'w diben neu mewn cyflwr da. Felly, rhaid i ddarpar brynwyr, tenantiaid neu ddeiliaid trwydded wneud eu hymholiadau annibynnol eu hunain ac archwilio'r eiddo i sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd cyn ymrwymo i gontract gwerthu neu brydlesu. Caiff y manylion hyn eu heithrio'n benodol o unrhyw gontract i werthu, prydlesu neu roi consesiwn. Gall y Cyngor dynnu'n ôl y cynnig i werthu, prydlesu neu roi consesiwn ar unrhyw adeg ac ni fydd yn talu unrhyw dreuliau o fath yn y byd ar ran y rhai sydd â diddordeb.







